# Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**2013 dccc 3**

## RHAN 3

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

### 28 Swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol

(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol, drwy reolau sefydlog, wneud darpariaeth ynghylch arfer y swyddogaethau a roddir iddo gan neu o dan y Ddeddf hon.

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn cynnwys dirprwyo swyddogaethau i'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, i bwyllgor neu is-bwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol neu i gadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath (ond nid yw'n gyfyngedig i hynny).

(3) Nid yw'r adran hon yn gymwys i swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 30 (gorchmynion).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 28 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I2** A. 28 mewn grym ar 4.7.2013 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 2(p)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Adran 28.